# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig i benderfynu p'un a ddylid cadarnhau'r hysbysiad o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yng Nghoedwig Dyfi neu ei dynnu yn ôl |
| **Lleoliad:** | Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11 Gorffennaf 2024 |
| **Aelodau'r pwyllgor yn bresennol:** | Dr Rosie Plummer (aelod o fwrdd CNC a Chadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Dr Peter Fox (aelod o fwrdd CNC)<br>Lesley Jones (aelod o fwrdd CNC ac aelod o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig)<br>Yr Athro Steve Ormerod (dirprwy gadeirydd bwrdd CNC ac aelod o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig) |
| **Hefyd yn bresennol:** | Ben Standing, Cynghorydd Cyfreithiol, Browne Jacobson<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, CNC<br>Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol, CNC<br>Ann Weedy, Rheolwr Gweithrediadau Canolbarth Cymru, CNC<br>Isobelle Hotchkiss, Swyddog 2 (Swyddog Cadwraeth), Tîm yr Amgylchedd Gogledd Powys, CNC<br>James Latham, Arweinydd y Tîm Ecosystemau Daearol, CNC<br>Sam Bosanquet, Cynghorydd Arbenigol, Cynefinoedd a Rhywogaethau Daearol, CNC<br>Holly York, Cynghorydd Arbenigol, Rhaglen Safleoedd Gwarchodedig, CNC<br>Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd, CNC<br>Edryd Davies, Gwrthwynebydd<br>Rheinallt Davies, Gwrthwynebydd<br>Gwyndaf Jones, Gwrthwynebydd<br>Dafydd Pughe, Gwrthwynebydd<br>Debbie Pughe, Gwrthwynebydd<br>Thomas Edwards, Gwrthwynebydd<br>Ilan Jones, cynrychiolydd Iwan Davies<br>Elen Evans, Undeb Amaethwyr Cymru |

| | |
|---|---|
| **Sylwedyddion yn bresennol:** | Helen Lewis, aelod o'r cyhoedd<br>Zoe Lowe, sylwedydd CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Richard Davies<br>Gwilym Edward Davies<br>Nia Edwards |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Sian Johnston, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, CNC<br>Natalie Williams, Arweinydd Tîm a Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd, Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, CNC |

## Eitem 1: Dechrau'r cyfarfod

1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i gyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig (y Pwyllgor), a oedd yn cael ei gynnal yn gyhoeddus. Cafodd pawb eu hatgoffa y caiff cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg eu gwerthfawrogi'n gyfartal. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cymryd cofnodion a byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i ddarparu cofnod cyfreithiol. Eglurodd y Cadeirydd mai dim ond aelodau bwrdd CNC a oedd yn bresennol fyddai'n gweithredu yn y broses o wneud penderfyniadau. Cyflwynodd aelodau'r bwrdd, staff CNC, a Ben Standing eu hunain.

<u>Datganiadau o fuddiant</u>

2. Yn ogystal â hyn, cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd gan unrhyw aelod o'r Pwyllgor na'r weithrediaeth unrhyw gydberthynas bersonol ag unrhyw un o'r gwrthwynebwyr na'r cynrychiolwyr.

<u>Steve Ormerod</u>

- Cynrychiolydd CNC ar y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Aelod o Grŵp Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Craidd Llywodraeth Cymru
- Cymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, y Gymdeithas Frenhinol Bioleg, Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol, a'r Gymdeithas Fiolegol Dŵr Croyw, heb gysylltiad â'r safle ei hun

<u>Datganiad cyfreithiol</u>

3. Cyfeiriodd Ben Standing, Browne Jacobson, at y papur ysgrifenedig a ddarparwyd, a hysbysodd y Pwyllgor am ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau wrth ddod i benderfyniad ynghylch p'un a ddylid cymeradwyo'r cadarnhad, ei addasu, neu dynnu'r hysbysiad yn ôl. Cafodd y Pwyllgor eu hatgoffa eu bod yn gweithredu gydag awdurdod dirprwyedig bwrdd CNC a bod ganddynt ddyletswydd statudol i gadarnhau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) os oeddent yn teimlo, ar ôl craffu ar y dystiolaeth a'r achos a wnaed dros ddiddordeb arbennig, fod angen gwneud hynny. Hysbyswyd y Pwyllgor y dylent roi ystyriaeth ddyledus i ganllawiau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

ond na ddylent gael eu cyfyngu ganddynt. Cafodd y Pwyllgor eu hatgoffa fod eu pwerau yn cynnwys y gallu i gywiro gwallau testunol yn y ddogfennaeth, dileu ardaloedd o dir o'r safle dynodedig, a gwneud y gweithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig naill ai'n llai rhwymedigaethus neu'n fwy priodol.

4. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw drafodaeth flaenorol wedi bod ar yr achos ymhlith aelodau'r bwrdd a'r Pwyllgor fel bod pawb yn dod at y mater o'r newydd a chyda meddwl agored. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad y Swyddog, y gwrthwynebiadau a'r sylwadau ac yna'n ystyried ac yn gwneud penderfyniad ynghylch p'un a ddylid cymeradwyo'r penderfyniad i gadarnhau Coedwig Dyfi fel SoDdGA ai peidio.

## Eitem 2: Coedwig Dyfi – Gwybodaeth am y safle ac Adroddiad y Swyddog, gan gynnwys argymhelliad ffurfiol

5. Cyflwynodd Rheolwr Gweithrediadau Canolbarth Cymru Adroddiad y Swyddog, gan amlinellu'n fras leoliad a sefyllfa'r safle a'i ddiddordeb arbennig. Nodwyd y safle ar 11 Rhagfyr 2023 a derbyniwyd chwe gwrthwynebiad, ac roeddent yn parhau heb eu datrys.
6. Rhoddwyd cyflwyniad am safle Coedwig Dyfi, gan dynnu sylw at wybodaeth o'r papurau a ddarparwyd gan Swyddog 2 (Swyddog Cadwraeth), Tîm yr Amgylchedd Gogledd Powys, Arweinydd y Tîm Ecosystemau Daearol, a'r Cynghorydd Cynefinoedd a Rhywogaethau Daearol Arbenigol. Esboniwyd beth oedd lleoliad a nodweddion y safle, a darparwyd rhagor o wybodaeth am nodweddion y cennau a'r bryoffytau. Esboniwyd nodwedd y coetir a chrynhowyd y gwrthwynebiadau ac ymatebion CNC. Argymhellwyd y dylid cadarnhau'r safle, gyda newid bach i'r ffin a nodwyd yn yr hysbysiad a wnaed ar 11 Rhagfyr 2023. Argymhellwyd hefyd y dylid dadhysbysu rhan o SoDdGA gwreiddiol Coed Maes-mawr, Coed Esgairneiriau a Cheunant Caecenau. Roedd CNC yn cydymdeimlo bod yr hysbysiad hwn yn cyd-daro ag ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, a byddent yn ceisio cefnogi eu cyfraniad i'r SoDdGA.

7. Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu cyflwyniad a rhoddodd wahoddiad i'r Athro Steve Ormerod, aelod o'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, i gyflwyno adroddiad ar ei ymweliad â'r safle. Cynhaliwyd yr ymweliad â'r safle ddydd Mawrth, 2 Gorffennaf 2024, a chadarnhaodd yr Athro Ormerod ei bod yn amlwg iddo, o ystyried cyfansoddiad a chenoleg y coetir, fod hwn yn lleoliad pwysig sy'n haeddu bod o ddiddordeb arbennig. Cydnabuwyd arbenigedd y staff a gynhaliodd yr asesiadau.

8. Trafododd ac archwiliodd y Pwyllgor Adroddiad y Swyddog. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch dibynadwyedd y data gwyddonol, nodwyd bod aelodau'r cymdeithasau dysgedig wedi dogfennu'r casgliadau o gennau a bryoffytau ledled Cymru ers y 1940au a'u rhoi yng nghyd-destun y DU ac mewn cyd-destun rhyngwladol. Roedd dealltwriaeth dda o ddosbarthiad cennau a bryoffytau ledled Prydain, a chofnodwyd rhywogaethau Cymru yn drylwyr iawn, tra bo dealltwriaeth dda o goetiroedd yn dilyn arolygon helaeth y Dosbarthiad Llystyfiant Cenedlaethol ledled Cymru yn y 1990au. Roedd cennau'n goroesi o amgylch Coedwig Dyfi gan ei bod yn bell o ardaloedd diwydiannol ac oherwydd y math o arferion amaethyddol a ddefnyddir.

9. Nodwyd bod digonedd o gennau i'w cael yn ardal Coedwig Dyfi ond nad oedd yr ardal hon wedi bod yn adnabyddus iawn i arbenigwyr cennau tan yn ddiweddar, gan mai ond ychydig o bobl a allai adnabod y rhywogaethau hyn yn ddigonol. O ran ffiniau, nodwyd, er bod ardaloedd eraill o amgylch Coedwig Dyfi wedi cael eu harchwilio gyda chaniatâd perchnogion tir, bod arolygon wedi dangos nad oedd yr ardaloedd hyn yn cefnogi digon o nodweddion o ddiddordeb arbennig i'w cynnwys yn yr hysbysiad SoDdGA.

10. Holwyd am faint y SoDdGA, a ph'un a oedd angen uno'r ardaloedd unigol i fod yn SoDdGA neu a oeddent yn gymwys ar eu pen eu hunain. Cadarnhaodd swyddogion y byddai pob darn o dir yn gymwys fel SoDdGA ynddo'i hun ar sail ei nodweddion arbennig. Fodd bynnag, roedd y rhywogaethau a oedd i'w gweld fwy nag unwaith ar draws pob bloc yn gwneud y safle ehangach yn gyfanwaith cydlynol yn yr achos hwn. Roedd digon o ddata i ddod i'r casgliad bod yr ardal hon yn well nag unrhyw le arall yn Sir Drefaldwyn o ran nodweddion cennau.

11. Esboniodd y Cynghorydd Cynefinoedd a Rhywogaethau Daearol Arbenigol pa mor dda oedd tyfiant y nodweddion cennau ar y tir hwn a'r amodau angenrheidiol ar gyfer eu goroesiad. Roedd angen cydbwysedd bwysig o ran pori gan fod hwn yn offeryn rheoli sylfaenol a oedd yn galluogi'r cennau i ffynnu, ond gallai hefyd niweidio'r diddordeb pe bai'r pori'n annigonol neu'n rhy ddwys.

12. Esboniodd Arweinydd y Tîm Ecosystemau Daearol y gellid rheoli'r coetir mewn nifer o ffyrdd, ac eglurodd y byddai rheoli coetiroedd yn allweddol i gyfanrwydd a gwarchodaeth nodweddion arbennig y SoDdGA.

13. Adolygodd y Pwyllgor y sylwadau a gyflwynwyd gan swyddogion mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd gan dirfeddianwyr a meddianwyr, a chydnabuwyd a nodwyd yn benodol yr amryw rwystredigaethau a fynegwyd mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth a ysgogodd y cyfarfod hwn, a arweiniodd at her a gwrthwynebiad.

## Eitem 3: Gwrthwynebiadau a sylwadau eraill

14. Cyflwynodd y Cadeirydd y siaradwyr ac atgoffwyd y rhai a oedd yn bresennol y byddai gan bob siaradwr ddeng munud i siarad.

15. Yn absenoldeb Mr Bloomfield a Ms Talbot, tynnodd y Cadeirydd sylw'r Pwyllgor at eu gwrthwynebiad ysgrifenedig, a dderbyniwyd gan CNC yn ystod y cyfnod ymgynghori.

16. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Edryd Davies i siarad. Nododd Mr Edryd Davies nad oedd yn gwrthwynebu'r SoDdGA, ond ei fod yn gwrthwynebu'r ffordd yr oedd wedi'i orfodi ar y tirfeddianwyr. Roedd yr ansicrwydd ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a thaliadau ar gyfer SoDdGAau hefyd yn peri pryder. Cymerodd y Pwyllgor y sylwadau i ystyriaeth a chytunwyd i drafod pryderon y gwrthwynebwyr ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyda'i gilydd. Diolchodd y Cadeirydd i Mr Edryd Davies.

17. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Rheinallt Davies i siarad. Nododd Mr Rheinallt Davies ddau bwynt allweddol o'i wrthwynebiad ysgrifenedig. Mynegodd bryder ynghylch ailenwi'r coetir, gan bwysleisio y byddai hyn yn golygu y byddai enwau lleol hanesyddol yn cael eu colli. Gofynnwyd am sylw'r swyddog parthed enwi a thynnwyd sylw at y ffaith bod

Coedwig Dyfi yn cyfeirio at y goedwig gyfan yn hytrach na'r rhannau unigol, felly nid oedd yn diystyru enwau lleol.  Holodd Mr Rheinallt Davies hefyd pam fod CNC yn gwthio ei agenda ar ffermwyr a thirfeddianwyr pan nad oeddent yn gwneud yr un peth ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru yn yr ardal hon. Diolchwyd i Mr Rheinallt Davies am ei gyfraniad. Yna esboniodd y Pwyllgor y pwyntiau a oedd yn codi o'r gwrthwynebiad yn fras.

18. Cytunodd y Pwyllgor bod arwyddocâd diwylliannol i bwysigrwydd enwau, a sut y câi'r rhain eu cofnodi a'u cydnabod yn y broses hysbysu SoDdGA. Atgoffodd y Cadeirydd y pwyllgor fod gan CNC ganllawiau penodol ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol a'i fod mewn cysylltiad â'r Comisiwn Brenhinol Henebion yn ogystal â Chomisiwn yr Iaith Gymraeg ynghylch eu defnydd.

19. Nododd y pwyllgor fod Ystad Coetir Llywodraeth Cymru, y mae CNC yn gyfrifol amdani ar ran Llywodraeth Cymru, mewn cyfnod pontio er mwyn ystyried sut y gallai gyfrannu'n well at fioamrywiaeth. Amlygwyd bod adfer coetir er mwyn cynyddu cyfran y rhywogaethau brodorol yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, o ystyried amserlenni ym maes coedwigaeth, roedd rhaid i hon fod yn broses hirdymor. Roedd gan CNC rwymedigaethau i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a oedd yn golygu bod y cyfnod pontio yn benodol yn cael ei symud ymlaen. Cadarnhawyd y byddai Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, sydd wedi'i chynnwys o fewn ffin y SoDdGA, yn cael ei hadfer yn raddol, er bod rhywfaint o gnydau conwydd yno ar hyn o bryd.

20. Atgoffodd y cynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor, er na ddylid gwneud newidiadau i'r hysbysiad yn y cyfarfod hwn oni bai eu bod yn rhai bach, y gellid diwygio elfennau megis yr enw yn ddiweddarach, cyn belled ag nad oedd unrhyw beth sylweddol yn cael ei newid mewn perthynas â'r disgrifiad o'r SoDdGA. Nid oedd enw'r safle yn hanfodol er mwyn cadarnhau. Cytunodd y Pwyllgor y gellid ystyried trafod enw'r safle yn ddiweddarach.

21. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Gwyndaf Jones i siarad. Nododd Mr Gwyndaf Jones fod ei wrthwynebiad yn cynnwys y modd y ceisiwyd caniatâd gan y tirfeddianwyr i gynnal yr arolwg cychwynnol a'i fod o'r farn nad oedd goblygiadau'r arolwg wedi'u hegluro. Roedd yr ail bwynt allweddol yn ymwneud â'r sylw ychwanegol a fyddai'n cael ei dynnu at y safle a'r goblygiadau diogelwch posibl, gan gynnwys gan aelodau'r cyhoedd a fyddai'n teithio i weld y cennau.  Mynegodd bryder hefyd y byddai gweithrediadau CNC ei hun yn peri risg i'r gweithgareddau amaethyddol a oedd yn mynd rhagddynt yno. Diolchwyd i Mr Gwyndaf Jones am ei gyfraniad. Yna esboniodd y Pwyllgor y pwyntiau a oedd yn codi o'r gwrthwynebiad yn fras.

22. Nododd y Cadeirydd, fel yn achos unrhyw dir preifat, na fyddai gan y cyhoedd fynediad i'r safle oni bai fod hawl tramwy cyhoeddus yno. Ni fyddai CNC yn ymweld â'r safle oni bai eu bod wedi sicrhau caniatâd, neu mewn achos eithriadol pan fyddai angen gweithredu camau gorfodi. Pwysleisiwyd mai cyfrifoldeb perchennog y tir oedd egluro wrth bobl a oedd wedi cael mynediad i'w dir bod gofyn iddynt adael. Nodwyd hefyd y gallai fod o gymorth i CNC ystyried rheoli mynediad a symudiad pobl o amgylch pob safle gwarchodedig yn fwy cyffredinol oherwydd y goblygiadau bioddiogelwch, yn ogystal â sensitifrwydd diddordeb arbennig y safle.

23. Cytunodd y Pwyllgor fod angen rhoi sylw pellach i'r ffordd y cyfathrebwyd â thirfeddianwyr a chynnwys unrhyw gyfathrebu, gan gynnwys eglurder ynghylch goblygiadau posibl arolwg a'r ffordd y gofynnodd CNC am ganiatâd i fynd ar y tir.

24. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Dafydd Pughe a Mrs Debbie Pughe i siarad. Nododd Mrs Debbie Pughe, fel tirfeddianwyr, nad oedd ganddynt unrhyw broblem gyda phwysigrwydd y rhywogaethau a ddarganfuwyd ond nad oeddent yn deall pam fod angen hysbysu'r safle fel SoDdGA a pham na allai aros fel ag yr oedd. Gofynnodd hefyd faint o staff CNC a oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn a oedd wedi ymweld â safle Coedwig Dyfi. Diolchodd y Cadeirydd i Mr a Mrs Pughe am eu cyfraniad. Yna esboniodd y Pwyllgor y pwyntiau a oedd yn codi o'r gwrthwynebiad yn fras.

25. Atgoffodd y Cadeirydd bawb fod CNC o dan rwymedigaethau statudol, ac felly wedi'u rhwymo gan y gyfraith, pan oedd tystiolaeth o fflora, ffawna a nodweddion daearyddol a ffisiograffig arbennig wedi'u nodi. Pan oedd digon o dystiolaeth i hysbysu safle, roedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar CNC i ddiogelu hynny drwy hysbysu. Pwysleisiwyd nad amddiffyn y safle rhag perchennog y tir oedd y diben yma ond, yn hytrach, i sicrhau gwarchodaeth y safle am byth. Roedd pwerau gwarchod penodol yn dod yn ei sgil hefyd, gan gynnwys pwerau a oedd yn ymwneud â materion cynllunio ar y safle ei hun ac ardaloedd cyfagos lle gallai gweithredoedd achosi difrod i safleoedd. Roedd aelodau'r bwrdd ar y cyd yn cydnabod rhwystredigaethau'r ddeddfwriaeth a'r broses, ond ceisiwyd pwysleisio bod CNC a'r tirfeddianwyr yn rhannu'r un nod o ddiogelu'r amgylchedd yn y tymor hir.

26. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi bod y perchnogion tir yn teimlo bod eu gallu i ofalu am y tir yn cael ei gwestiynu. Roedd y Pwyllgor yn derbyn pwysigrwydd cydnabod yn well gyfraniad a rôl tirfeddianwyr o ran creu a chadw'r nodweddion arbennig ar y safleoedd eithriadol a hysbyswyd. Pwysleisiodd y Cadeirydd, pe bai'r hysbysiad yn cael ei gadarnhau, nad oedd disgwyl iddo newid yr hyn yr oedd tirfeddianwyr yn ei wneud â'r safle ar hyn o bryd. Pwysleisiwyd bod CNC wedi ymrwymo i weithio gyda'r tirfeddianwyr, ond eu bod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i nodi tir a oedd yn bodloni'r trothwy i gael ei ddiogelu am byth fel SoDdGA ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, waeth beth fyddai'r newidiadau o ran perchnogaeth y tir.

27. Nododd Mrs Debbie Pughe eu bod hefyd wedi teimlo dan bwysau i ganiatáu i CNC gynnal ymweliad safle ar eu tir ac nad oeddent, ar y dechrau, wedi bod yn ddigon ymwybodol o'r rhesymeg na'r goblygiadau posibl. Cododd bryderon hefyd fod CNC wedi mynd ar eu tir heb ganiatâd. Pwysleisiodd yr Athro Ormerod mai dim ond tir lle rhoddwyd caniatâd yr oedd wedi ymweld ag ef yn ystod ei ymweliad safle. Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd mynediad cyffredinol wedi bod ar y safle, ac mai dim ond pan roddwyd caniatâd yr aeth cynrychiolwyr CNC ar dir Mr a Mrs Pughe.

28. Nododd y Cadeirydd fod rhaid i swyddogion fynnu eu hawl i fynd ar dir os nad oedd caniatâd wedi'i roi. Cadarnhawyd bod CNC wedi defnyddio'r pwerau mynediad cyfreithiol hyn ar gyfer daliad Mr Iwan Davies, gan fod tystiolaeth bod y tir yn cynnwys diddordeb gwyddonol rhagorol. Gwnaed pob ymdrech i ofyn am ganiatâd, ond gwrthododd Mr Davies, a defnyddiodd CNC eu pwerau mynediad yn yr achos hwnnw. Pe bai angen i CNC ymweld â thir unrhyw un eto, dim ond gyda chaniatâd y tirfeddianwyr y byddai hyn

yn cael ei wneud neu pe bai pwerau gorfodi yn cael eu hystyried yn angenrheidiol. Rhoddodd y Pwyllgor a swyddogion CNC sicrwydd y byddai gwersi'n cael eu dysgu o'r ffordd y cyfathrebodd CNC â thirfeddianwyr o'r cychwyn cyntaf, gan gynnwys yr angen i amlinellu beth fyddai ymweliadau safle yn ei olygu a'r goblygiadau posibl a allai ddilyn.

29. Gwahoddodd y Cadeirydd Mr Thomas Edwards i siarad. Nododd Mr Thomas Edwards nad oedd yn gwrthwynebu'r SoDdGA ychwaith, ond mynegodd bryder ynghylch y cyfyngiadau a oedd yn dod yn ei sgil ac ansicrwydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cododd bryderon hefyd ynghylch perthynas CNC â'r tirfeddianwyr ac ynghylch cyfathrebu mewnol rhwng staff CNC. Cododd gwestiynau penodol ynghylch achos o ddefnyddio chwynladdwyr ac ynghylch hyd llwybrau echdynnu coed pan oedd llwybr byrrach ar gael, gan awgrymu y gallai gweithrediadau CNC ei hun dorri arferion amgylcheddol da.

30. Cytunodd y Pwyllgor fod angen rhoi ystyriaeth i oblygiadau amgylcheddol gweithrediadau gwaith coed, gan gynnwys allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, i sicrhau nad oedd CNC ei hun yn torri safonau amgylcheddol. Roedd angen gwneud gwelliannau ar gyfer gwahanol dimau sy'n gweithio gyda'i gilydd o fewn CNC.

31. Gwahoddodd y Cadeirydd Ilan Jones o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru i siarad ar ran Mr Iwan Davies. Er nad oedd Mr Iwan Davies yn gwrthwynebu'r hysbysiad, gan gydnabod y dystiolaeth wyddonol a gyflwynwyd, roedd ei sylwadau ysgrifenedig i CNC yn adlewyrchu ei bryderon ynghylch effaith SoDdGA. Cydnabu fod ffermio yn gofyn am y gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid ac roedd yn pryderu na fyddai CNC yn ymateb mewn modd amserol i roi caniatâd ar gyfer materion y gallai fod angen addasu ar eu cyfer. Roedd yn destun pryder nad oedd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy presennol yn darparu cyllid i'r rhai â SoDdGA ar eu tir. Roedd yn anffodus bod amseriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a hysbysiad y SoDdGA hwn yn cyd-daro. Gofynnwyd i CNC oedi'r hysbysiad hyd nes y bydd manylion terfynol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy wedi'u darparu neu hyd nes y gallai CNC ariannu cytundebau rheoli tir i gydnabod a chefnogi'r SoDdGA. Nododd Mr Iwan Davies hefyd ei rwystredigaeth fod pryderon ynghylch problemau ffensio a materion ffiniau CNC yn cael eu trosglwyddo o un adran i'r llall o fewn CNC.

32. Cadarnhaodd y Cadeirydd y cytundeb eang mai cydweithio oedd y ffordd ymlaen; fodd bynnag, ni allai CNC oedi'r broses hysbysu gan ei bod wedi'i chyfyngu gan gyfnod statudol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod pa mor rhwystrol oedd cynnal ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar yr un pryd, a sefyllfa ariannol CNC, a oedd yn cyfyngu ar ei allu i ymrwymo i gytundebau rheoli tir gyda thirfeddianwyr. Pwysleisiodd y Cadeirydd fod CNC yn parhau i geisio dylanwadu ar ddatblygiad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru yn benodol at oblygiadau peidio â chynnwys cyllid SoDdGA yn y taliadau Haen Gyffredinol arfaethedig, gan annog y dylid ailystyried hyn.

33. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a phwysleisiwyd nad oedd unrhyw benderfyniadau ar ddyluniad y cynllun wedi'u gwneud eto. Roedd CNC yn cydymdeimlo â'r ansicrwydd o ran y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ond ni allent wneud dim heblaw am barhau i weithio gyda

Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ei ddatblygiad. Roedd CNC hefyd wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y ffaith fod bwlch rhwng diwedd cynllun Glastir a dechrau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac felly roeddent yn cynghori ar yr hyn a ddylai ddigwydd yn y bwlch hwn.

34. O ran y mater ffensio, ail-ategodd y Cadeirydd y rhwymedigaeth gyfreithiol ar berchnogion da byw i fod yn gyfrifol am eu ffensys eu hunain i gynnwys da byw. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod y pryderon ynghylch stoc wyllt yn dod i mewn o'r ystâd goetir yr oedd CNC yn gyfrifol amdani yn ogystal â'r egwyddor o fod yn gymydog da wrth gynnal ffiniau. Addawodd y Cadeirydd y byddai'n cyflwyno pryderon y perchnogion tir ynghylch y ffensys, a'r patrwm cyfathrebu ar y mater, i CNC yn benodol.

35. Cynhaliwyd trafodaeth ynghylch y rhestr o weithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig a'r pryderon a fynegwyd ynghylch amser ymateb CNC ar gyfer caniatâd. Cadarnhawyd y byddai staff CNC yn gweithio gyda'r tirfeddianwyr i adolygu unrhyw gydsyniadau sydd eu hangen yn y tymor byr a'r tymor hir fel y gellid rhoi caniatâd yn brydlon. Anogwyd tirfeddianwyr i gysylltu â staff CNC yn y tîm lleol yn uniongyrchol i drafod unrhyw gydsyniadau sydd eu hangen a chawsant sicrwydd y byddent yn delio â'r rhain cyn gynted â phosibl.

36. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch p'un a oedd CNC yn credu y byddai safleoedd gwarchodedig mewn perygl o gael eu difrodi pe bai'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn aros fel ag yr oedd trwy beidio â digolledu tirfeddianwyr, cadarnhaodd CNC ei fod wedi cynghori Llywodraeth Cymru am risgiau posibl camau gweithredu andwyol pe na bai darpariaeth i gefnogi'r gwaith o reoli SoDdGAau ar gael. Roedd y pwyllgor yn cydnabod y gallai'r sefyllfa hon effeithio'n sylweddol ar allu CNC i warchod safleoedd rhag difrod.

37. Tynnodd Elen Evans o Undeb Amaethwyr Cymru sylw at y ffaith nad oedd y rheoliadau SoDdGA newydd yn rhoi unrhyw ffocws i risg diogelu amaethyddol. Nododd hefyd y byddai tirfeddianwyr yn colli cefnogaeth ariannol ac y byddent nawr yn colli incwm o beidio â gallu tyfu bwyd ar eu tir. Nododd y Cadeirydd y sylwadau a wnaed ond atgoffodd bawb a oedd yn bresennol, er bod y Pwyllgor yn cydymdeimlo, mai eu dyletswydd yn y cyfarfod hwn oedd ystyried y dystiolaeth wyddonol ar gyfer yr hysbysiad.

38. Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniad.

## Eitem 4: Trafodaeth a phenderfyniad y Pwyllgor

39. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau o'r pwerau a'r dyletswyddau yr eglurwyd iddynt yn flaenorol a cheisiodd gadarnhad aelodau'r bwrdd fod digon o gyfle wedi bod i adolygu'r wybodaeth a gofyn cwestiynau i swyddogion.

40. Trafododd y Pwyllgor yr hysbysiad a chydnabuwyd eu dyletswydd gyfreithiol i gymeradwyo'r safle i'w warchod os oeddent yn ystyried bod y dystiolaeth wyddonol o ddiddordeb arbennig yn ddigonol i gyfiawnhau'r penderfyniad. Ailadroddodd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor wedi trafod y safle hwn nac wedi gwneud penderfyniad ar yr achos dros hysbysu cyn y cyfarfod hwn.

41. Roedd y Pwyllgor yn unfrydol yn eu cytundeb bod achos cadarn wedi'i gyflwyno, a bod hwn wedi'i graffu'n drylwyr o ran bodloni'r meini prawf ar gyfer gwarchodaeth.

42. Nododd y Pwyllgor y byddent yn cymryd y sylwadau a wnaed ynghylch y problemau ehangach gyda'r broses i ystyriaeth, ac anogwyd staff CNC i ddarparu'r llythyrau cydsynio cyn gynted â phosibl ac i barhau i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Pwysleisiodd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor wedi trafod na gwneud penderfyniad cyn y cyfarfod hwn.

43. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gan swyddogion CNC ac ar ôl rhoi sylw gofalus i'r gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd, cymeradwyodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig gadarnhad SoDdGA Coedwig Dyfi.

44. Cytunwyd bod newid bach i'r ffin yn yr hysbysiad a wnaed ar 11 Rhagfyr 2023 o dan adran 28 (5) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn briodol. Gellid dod o hyd i fanylion parthed y newid ffin yn Adroddiad y Swyddog.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig gadarnhad SoDdGA Coedwig Dyfi, gyda newid bach i'r ffin yn yr hysbysiad a wnaed ar 11 Rhagfyr 2023 o dan adran 28 (5) o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd).**

45. Ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ddadhysbysu'n rhannol SoDdGA gwreiddiol Coed Maes-mawr, Coed Esgairneiriau a Cheunant Caecenau, fel y'i cyflwynwyd yn Adroddiad y Swyddog.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig ddadhysbysu'n rhannol SoDdGA gwreiddiol Coed Maes-mawr, Coed Esgairneiriau a Cheunant Caecenau.**

46. Yn dilyn y penderfyniad i gymeradwyo'r cadarnhad, adolygodd y Pwyllgor y gweithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig a gymhwyswyd i'r safle. Ymdriniwyd â sylwadau'r gwrthwynebwyr am ehangder y gweithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig a pha mor gyflym y deliwyd â cheisiadau am gymeradwyaeth. Nododd y Cadeirydd y byddai cydsyniadau hirdymor yn cael eu rhoi, lle bo modd, i roi hyder i dirfeddianwyr ac i leihau'r angen i geisio cydsyniadau newydd oni bai fod newid. Atgoffwyd y Pwyllgor, pe bai unrhyw berchnogion newydd, y byddai angen i bob un drafod y SoDdGA gydag CNC a chael y cydsyniadau priodol.

47. Ystyriwyd yn benodol eglurhad am berthnasedd gweithrediad 16a ymhlith y gweithrediadau sy'n debygol o niweidio diddordeb arbennig y safle hwn, sy'n cyfeirio at bysgota dŵr croyw. Nodwyd bod rhai cennau yn bresennol ar greigiau yn yr afon a bod system yr afon yn rhan o'r safle. Derbyniwyd priodoldeb y gweithrediad hwn, sef 16a.

48. Holwyd am weithrediad 28 o'r rhai sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig, sy'n ymwneud â rheoli helgig, ac esboniwyd bod corlannau ffesantod o fewn SoDdGA arall ym Mhowys wedi arddangos difrod i gennau. Cytunwyd ar briodoldeb y gweithrediad hwn, sef 28.

49. Cadarnhaodd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig eu bod yn derbyn y gweithrediadau sy'n debygol o niweidio'r diddordeb arbennig ar gyfer Coedwig Dyfi.

50. Wrth gloi'r drafodaeth, cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod hi a'r Pwyllgor wedi nodi'r pwyntiau ehangach a wnaed gan dirfeddianwyr yn ofalus, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r broses, y mater a oedd yn ymwneud ag enwi, siom ynghylch y diffyg rhagolygon am gefnogaeth cytundeb rheoli tir, a'r pryderon ynghylch ffensio yn ogystal â chyfathrebu mewnol CNC ynghylch hyn. Anogodd y Pwyllgor staff CNC i ddarparu'r llythyrau cydsynio cyn gynted â phosibl (ar ôl i hysbysiad o fwriadau gael ei dderbyn) ac i barhau i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru parthed y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

51. Diolchodd y Cadeirydd i'r tirfeddianwyr am y gofal a'r diddordeb a ddangoswyd ganddynt, a oedd wedi bod yn hanfodol i gynnal buddiant bioamrywiaeth y safle, ac am yr angerdd a'r ymgysylltiad a ddangoswyd ganddynt wrth godi eu pryderon gyda'r Pwyllgor.

## Eitem 5: Y camau nesaf

52. Crynhodd Rheolwr Gweithrediadau Canolbarth Cymru benderfyniad y Pwyllgor i gymeradwyo cadarnhad yr hysbysiad, i ddadhysbysu'n rhannol yr ardal a hysbyswyd yn flaenorol, ac i wneud newid bach i'r ffin. Byddai'r safle bellach yn cael ei gadarnhau ar ddyddiad penodol cyn 10 Medi 2024. Byddai pob tirfeddiannwr a meddiannwr yn derbyn llythyr cadarnhau a dogfennaeth i adlewyrchu'r addasiadau y byddai CNC yn eu gwneud i ffin y safle.

53. Crynhodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cyflawni eu dyletswydd ac y byddent yn cymryd sylwadau penodol, ar wahân i'r hysbysiad, i CNC eu hystyried, fel y trafodwyd yn ystod y cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 4pm.

## Cau'r cyfarfod